

SL(6)173 – Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a Diben

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn diwygio Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012").

Mae adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), i gynnal arolwg, neu drefnu ar gyfer cynnal arolwg, drwy ofyn cwestiynau rhagnodedig i gynghorwyr ac ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol yn gynghorwyr i gyngor y sir neu'r bwrdeistref sirol neu i gyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol. Fel arall, gellir cynnal yr arolwg yn gyfan gwbl ar ôl yr etholiad arferol, o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus. Mae Rheoliadau 2012 yn rhagnodi'r cwestiynau y mae'n rhaid eu gofyn wrth gynnal arolwg. Mae ymateb i'r arolwg yn wirfoddol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn disodli'r arolwg a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau 2012 ag arolwg newydd ("yr Arolwg Newydd"), sy'n gwneud mân ddiwygiadau i'r arolwg blaenorol, gan gynnwys darparu atebion dewisol ychwanegol i gwestiynau penodol a newid geiriad rhai cwestiynau. Mae'r Arolwg Newydd hefyd yn gofyn cwestiynau ychwanegol ynghylch ymwybyddiaeth o'r 'Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol' sydd ar gael i gynghorwyr, a 'Chronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru'.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.



Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai un o'r prif faterion sy'n cael sylw yn sgil y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau yw esblygiad yr iaith sy'n ymwneud â'r maes cydraddoldeb ac amrywiaeth. Nodwn, fodd bynnag, nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a gynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ac, os na wnaed, pam na chynhaliwyd asesiad o'r fath.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb gan na fu unrhyw newid i'r polisi sy'n sail i'r Rheoliadau hyn. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, rhagnodir y gofyniad i gynnal yr arolwg mewn deddfwriaeth, gan gynnwys y cwestiynau i'w gofyn wrth gynnal yr arolwg.

Byddai defnyddio'r arolwg blaenorol a gynhwyswyd yn Rheoliadau 2012 ar gyfer etholiadau mis Mai 2022 wedi sicrhau cydymffurfedd cyfreithiol. Er hynny, teimlwyd ei bod yn briodol y dylid profi'r cwestiynau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n briodol.

Yn ystod y broses ymgysylltu hon, roedd yn amlwg bod rhai materion yn codi o ran yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr arolwg blaenorol hwnnw o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Ymchwiliwyd ymhellach i hyn â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn yr arolwg yn adlewyrchu iaith briodol gyfredol.

Y bwriad yw cynnal gwerthusiad llawn o drefniadau'r arolwg gan gynnwys y dull o'i gynnal a'r cynnwys yn dilyn cwblhau arolwg 2022. Ar y pwynt hwn, cynhelir set lawn o asesiadau effaith er mwyn hwyluso polisi'r dyfodol.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

